



Rhestru Adeiladau yng Nghymru

---

## Beth yw Rhestru?

---

 **Cadw**



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Cadw yw'r asiantaeth weithredol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cyflawni swyddogaethau statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r dreftadaeth adeiledig.

© Cadw

Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn 01443 336000 Ffacs 01443 336001

[cadw@wales.gsi.gov.uk](mailto:cadw@wales.gsi.gov.uk) <http://www.cadw.cymru.gov.uk>

Argraffiad cyntaf 1996, ail argraffiad 2002, trydydd argraffiad 2005 ISBN 1 85760 222 6

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen.  
Am fanylion cystyllwch â Cadw yn y cyfeiriad uchod  
neu ffoniwch 01443 336090.

---

# Beth yw Rhestru?

---

## *Introduction*

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio rhestrau o adeiladau o ddi-ddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Defnyddir y rhestrau i helpu awdurdodau cynllunio i wneud penderfyniadau gyda buddiannau'r amgylchedd hanesyddol wedi'u nodi'n eglur. Cadw, yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n ymgymryd â'r gwaith o lunio'r rhestrau.

## *Sut y caiff y rhestrau eu sefydlu?*

Mae ailarolwg cenedlaethol yn digwydd ar hyn o bryd er mwyn nodi adeiladau i'w rhestru a diweddarau'r rhestrau sy'n bodoli eisoes, a bydd hwn yn cael gwblhau erbyn diwedd 2005. Fel arfer, caiff adeiladau eu rhestru yn dilyn arolwg o ardal, ond weithiau, gellir rhestru eiddo unigol — rhestru man a lle — os cânt eu bygwth gan ddatblygiad. Gellir rhestru hefyd yn sgîl cyflwyno hysbysiad cadw adeilad gan awdurdod cynllunio lleol.



*Cynlluniwyd caffi Moranedd, Cricieth (1948), gan Clough William-Ellis ac mae'n adeilad rhestredig Gradd II.*

## *Sut y caiff adeiladau eu dewis?*

Caiff adeiladau eu hasesu yn erbyn meini prawf a nodwyd yng Nghylchlythyrau 61/96 ac 1/98. Yn wreiddiol, lluniwyd yr egwyddorion ar gyfer dewis gan bwyllgor arbenigol o benseiri, hynafiaethwyr a haneswyr ac fe'u dilynir hyd heddiw, er y caiff y meini prawf eu hadolygu o dro i dro. Y canlynol yw'r prif feini prawf:

- Diddordeb pensaernïol: adeiladau sydd o bwysigrwydd i'r genedl oherwydd nodweddion diddorol eu cynlluniau pensaernïol, addurniadau a chrefftwaith; hefyd enghreifftiau pwysig o fathau arbennig ar adeiladau a thechnegau (er enghraifft, adeiladau sy'n arddangos blaengaredd neu rinweddau technolegol) a ffurfiau cynllun arwyddocaol;
- Diddordeb hanesyddol: adeiladau sy'n darlunio agweddau pwysig ar hanes cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu filwrol y genedl;
- Cysylltiadau hanesyddol agos â phobl neu ddigwyddiadau sydd o bwys i Gymru;
- Gwerth fel grŵp: yn enwedig lle mae'r adeiladau gyda'i gilydd yn ffurfio uned bensaernïol neu hanesyddol bwysig neu enghraifft wych o gynllunio (er enghraifft, sgwariau, terasau neu bentrefi model).

Wrth ystyried a ddylid rhestru adeilad ai peidio, cynghorir y Cynulliad gan yr Arolygiaeth Adeiladau Hanesyddol broffesiynol o fewn Cadw, sy'n cynnal asesiadau yng ngoleuni'r egwyddorion hyn. Yn ogystal, ymgynghorir ag awdurdodau lleol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW). Ni ellir rhestru gerddi, waeth pa mor eithriadol ydynt, er y gellir rhestru strwythurau gardd yn unigol. Mae Cadw wedi paratoi cofrestr anstatudol o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol sy'n rhoi manylion safleoedd o ddiddordeb.



*Caiff adeiladau sydd o ddiddordeb eithriadol eu rhestru. Caiff Tŷ Tredegar, Gradd I, ei gymwys yn y categori hwn. Mae Bolnhurst, Llanfairfechan, adeilad rhedredig Gradd II, yn enghraifft wych o'r arddull bensaernïol Celfyddyd a Chrefft.*



## *Pa eitemau a restrir?*

Mae rhestru yn ymwneud â'r tu allan a'r tu fewn i adeilad, unrhyw wrthrych neu strwythur sydd ynghlwm wrtho ac unrhyw strwythur o fewn ei gwrtil sy'n rhan o'r tir ac sydd wedi bod felly ers cyn I Gorffennaf 1948.

## *Beth yw'r graddau a ddefnyddir?*

Caiff adeiladau rhestredig eu dosbarthu mewn graddau i ddangos eu pwysigrwydd cymharol. Y graddau yw:

- I — Adeiladau o ddiddordeb eithriadol, yn genedlaethol fel arfer. Ar hyn o bryd, mae llai na dau y cant o'r adeiladau sydd wedi'u rhestru yng Nghymru yn gymwys ar gyfer y radd hon;
- II\* — Adeiladau arbennig o bwysig, yn fwy na diddordeb arbennig;
- II — Adeiladau o ddiddordeb arbennig, sy'n haeddu pob ymdrech i'w cadw.

## *Beth mae rhestru'n ei olygu yn ymarferol?*

Yn ogystal â darparu dogfen gyfeirio barod o adeiladau o bwysigrwydd i drefnadaeth y genedl, mae rhestru yn darparu lefel ychwanegol o ddiogelwch. Bydd hynny ar ffurf gweithdrefn gynllunio arbennig, a elwir yn ganiatâd adeilad rhestredig. Mae'n drosedd cyflawni unrhyw waith (naill ai'n fewnol neu'n allanol) a fyddai'n effeithio ar gymeriad adeilad unwaith y caiff ei restru, oni fydd gennych ganiatâd adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio priodol. Fel arfer, caiff gwaith cynnal a chadw rheolaidd neu atgyweirio cyfatebol eu heithrio rhag rheoliadau adeilad rhestredig. Gall eich awdurdod lleol ddarparu arweiniad mewn unrhyw achos penodol a dylid cysylltu ag ef cyn dechrau unrhyw waith. I gael rhagor o fanylion am weithdrefnau caniatâd adeilad rhestredig, cyfeiriwch at lyfryn Cadw *Caniatâd Adeilad Rhestredig* (diwygiwyd 2002).

Gallai nifer gyfyngedig o adeiladau rhestredig fod yn gymwys i gael grant gan Cadw i gynorthwyo gyda gwaith atgyweirio, ond nid yw hyn yn awtomatig. Mae'r meini prawf cymhwyso yn mynd y tu hwnt i'r meini prawf ar gyfer rhestru. I gael manylion am y cymorth ariannol sydd ar gael, cyfeiriwch at lyfryn Cadw *Grantiau Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth* (diwygiwyd 2004).



*Adeiladwyd y goleudy yn y Parlwr Du, Sir y Fflint, tua 1777 a hwyrach mai ei lusern yw'r cynharaf yng Nghymru. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II.*

## *Pa wybodaeth a gynhwysir yn y rhestrau?*

Mae'r rhestrau yn cynnwys disgrifiad o bob adeilad. Mae hyn yn bennaf er mwyn cynorthwyo'r broses o nodi. Nid oes iddynt unrhyw bwer statudol. Bydd y disgrifiad yn egluro pam y cafodd yr adeilad ei ddewis ar gyfer ei restru ac yn crybwyll ei nodweddion pwysig. Nid yw absenoldeb nodwedd o'r rhestr yn nodi nad yw o ddi-ddordeb nac y gellir ei symud neu ei haddasu heb ganiatâd. Mae pob cofnod ar y rhestr yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Y stryd, enw neu rif yr adeilad;
- Ei radd;
- Rhif cyfeirnod a'r Cyfeirnod Grid Cenedlaethol;
- Disgrifiad byr o'r adeilad, ei hanes a materion eraill o ddi-ddordeb;
- Cyfeiriad, lle y bo'n berthnasol, at wybodaeth arall a gyhoeddwyd ynglŷn â'r adeilad a'i bwysigrwydd.

## *Beth yw swyddogaeth yr awdurdodau lleol wrth restru?*

Ymgynghorir â'r awdurdod lleol perthnasol cyn rhestru unrhyw adeilad ac fe'i gwahoddir i ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol fel caniatâd cynllunio sydd mewn bodolaeth. Pan gaiff adeilad ei restru, bydd Cadw yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol sy'n cyflwyno hysbysiad i'r perchennog a'r deiliad.

## *Ble y gellir gweld y rhestrau?*

Gellir archwilio'r rhestr ar gyfer yr ardal yn swyddfeydd perthnasol yr awdurdod cynllunio neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Fel arfer bydd llyfrgelloedd lleol yn cadw copiâu o'r rhestrau ar gyfer eu hardaloedd. Cedwir rhestrau ar gyfer Cymru gyfan gan Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Adeiladau'r Goron, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1NJ.





*Mae Capel Bethesda yn Nhon Pentre, Rhondda Cynon Taf, yn adeilad rhestredig Gradd II\*.*

## *A oes modd apelio yn erbyn rhestru?*

Nid oes unrhyw hawl statudol i apelio, ond dylai unrhyw un sydd â gwybodaeth berthnasol am adeilad ei hanfon at Cadw a gofyn i'r rhestru gael ei ailystyried. Dylid seilio apêl ar wybodaeth sy'n gysylltiedig â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol yr adeilad ac nid ar effeithiau diogelwch statudol ar gynigion datblygu. Byddai ffactorau o'r fath yn briodol i gais am ganiatâd adeilad rhestredig.



*Mae Upper House, Discoed yn adeilad rhestredig Gradd II\*. Adeiladwyd y neuadd-dŷ gyda'i ffrâm goed yn yr unfed ganrif ar bymtheg ac fe'i hailfodelwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg.*

### **Noder**

Nid yw'r daflen hon yn honni ei bod yn ddehongliad pendant o'r gyfraith.